**Eitem ar yr agenda: 3**

# AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU

Dyma gofnodion y cyfarfod o Banel Gweithredol Awdurdod Tân Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Mercher 14eg Ionawr 2004 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, y Rhyl. Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 y bore.

**Yn bresennol:**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| M Ll Davies (Is-Gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| J R Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Jones MBE | Cyngor Sir Ddinbych |
| D M Morris | Cyngor Sir Ddinbych |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| R P MacFarlane | Cyngor Sir y Fflint |
| D G Parry | Cyngor Sir y Fflint |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); P S Coles (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol dros dro, Cyflwyno'r Gwasanaethau); S Morris (Swyddog Prosiectau); Rh Owen (Rheolwr Personél) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

## 1) Ymddiheuriadau

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| F A Nichols | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

a P L Slee (Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Corfforaethol)

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Rhoddodd y Cadeirydd wybod bod y Mesur Gwasanaethau Tân ac Achub wedi ei gyhoeddi'n ddiweddar ac y byddai'r Clerc a'r Prif Swyddog Tân yn rhoi gorolwg cryno o'i gynnwys dan eitem fusnes rhif 6.

## 3) Cofnodion

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 27$^{ain}$ Hydref 2003

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion***

## 4) Materion yn codi

Tynnodd y Clerc sylw'r aelodau at ei lythyr dyddiedig 7$^{fed}$ Ionawr 2004 yn rhoi gwybod iddynt am y rhesymau pam na fyddai'r adroddiad ar "Ddirprwyo Pwerau i'r Prif Swyddog Tân" yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod presennol.

Atgoffwyd yr aelodau fod ymweliad wedi ei drefnu i Ganolfan Hyfforddi Ryngwladol y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Chorley ddydd Llun 2$^{il}$ Chwefror 2004 a dywedwyd wrthynt yr amseroedd a'r mannau codi ar gyfer y daith fws.

Gofynnodd y Cynghorydd E C George a wnaethpwyd unrhyw gynnydd ers argymhelliad yr Awdurdod, yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr, y dylai Fforwm Gwasanaethau Tân Cymru ystyried cryfhau ei gynrychiolaeth o aelodau etholedig. Dywedodd y Cadeirydd fod y mater wedi ei drafod yn nghyfarfod y Fforwm ym mis Rhagfyr pan benderfynwyd gofyn i'r 3 Prif Swyddog Tân lunio adroddiad ynghylch y ffordd ymlaen i'r Fforwm, ar gyfer ei ystyried yn ei gyfarfod ym mis Mawrth, gyda golwg i roi'r trefniadau newydd ar waith ym mis Mai 2004.

## 5) Y ddiweddaraf ar y Gyllideb Refeniw 2004/05

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn rhoi gwybod i'r aelodau am y sefyllfa bresennol ynglŷn â'r gyllideb refeniw am 2004/05. Dywedodd nad oedd y sefyllfa wedi newid yn fawr ers i'r Awdurdod gymeradwyo'r Gyllideb Ddrafft yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr. Ni ddaeth rhagor o wybodaeth bendant ynghylch arian pontio i'r awdurdodau tân yng Nghymru, a deellid mai ar ffurf benthyciad i'w dalu'n uniongyrchol i'r Awdurdod Tân yn hytrach na thrwy Grant Cefnogi Refeniw (RSG) i'r awdurdodau cyfansoddol y byddai unrhyw arian yn dod. Ychwanegodd y Prif Swyddog Tân fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd yn edrych ar swm yr arian pontio a fyddai ar gael i bob awdurdod tân. I ateb cwestiwn ynghylch a fyddai'r Awdurdod yn ystyried cyflwyno cais petai arian yn dod ar gael, dywedodd y Trysorydd mai'r hyn y byddai ef yn ei gynghori fyddai cyflwyno cais dim ond os nad benthyciad y byddai ac felly y byddai'n lliniaru'r pwysau ar y gyllideb.

***Penderfynwyd:*** ***- nodi'r adroddiad***

**6) Trafodaeth ar y dogfennau "Draft Fire & Rescue National Framework" a "The Future of Fire & Rescue Service Control Rooms in England and Wales"**

Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr aelodau fod yr eitemau hyn wedi eu cynnwys i'w trafod ar gais yr Awdurdod yn dilyn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr, pan ddosbarthwyd copïau o'r ddwy ddogfen i'r holl aelodau.

**"Draft Fire & Rescue National Framework":** Pwysleisiodd y Prif Swyddog Tân mai dim ond i awdurdodau tân yn Lloegr yr oedd y ddogfen yn berthnasol, er y byddai o ddiddordeb i aelodau awdurdodau tân yng Nghymru. Roedd swyddogion yn y Cynulliad wrthi yn llunio dogfen ar y fframwaith cenedlaethol yng Nghymru. Disgwylid ei chyhoeddi yn ystod y gwanwyn a'i lansio'n swyddogol yn y gynhadledd "Wales Fire" ym mis Mai 2004. Roedd y Prif Swyddog Tân o'r farn y byddai'r ddogfen fframwaith ar gyfer Cymru, er yn debyg mewn rhannau i ddogfen Lloegr, byddai rhannau eraill megis ar lywodraethu'r Gwasanaeth yn wahanol iawn. Er bod rhai aelodau o'r farn na ddylent gyflwyno sylwadau ar y ddogfen, roedd eraill o'r farn ei bod yn bwysig cael eu gweld yn ymateb i faterion a oedd â goblygiadau trawsffiniol megis "Firelink" a rheolau adeiladu. Dywedodd y Clerc fod y ddogfen, yn groes i gyfarwyddyd a deddfwriaeth ddiweddar arall yn ymwneud â llywodraeth leol, i'w gweld â naws gryf o ganoli arni. Felly:

***Penderfynwyd:*** ***- bod y Prif Swyddog Tân yn llunio ymateb i'r ddogfen "Draft Fire & Rescue National Framework", i'w gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Panel Gweithredol i'w gymeradwyo, ar yr holl faterion yn yr adroddiad oedd â goblygiadau trawsffiniol***

**Dyfodol Ystafelloedd Rheoli Gwasanaethau Tân yng Nghymru a Lloegr:** Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r aelodau mai dogfen ddiweddaredig o'r adroddiad *"The Future of Fire Service Control Rooms and Communications in England and Wales"* a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn Ebrill 2000 oedd y ddogfen hon, sy'n ymwneud â Chymru a Lloegr. Tynnodd y Clerc sylw at y ffaith fod yr Awdurdod yn ddiweddar wedi cytuno, mewn egwyddor, i ymchwilio i fanteision gweithio ar y cyd â'r gwasanaethau brys eraill yng Ngogledd Cymru. Dywedodd hefyd fod y ddogfen hon, er ei bod yn cyfeirio at y ffaith mai mater i Gynulliad Cenedlaethol Cymru oedd penderfynu ar nifer ystafelloedd rheoli'r gwasanaeth tân yng Nghymru, yn awgrymu'n gryf mai'r sefyllfa mwyaf ffafriol i Gymru fyddai un ystafell reoli; er nad oedd yn mentro gwneud unrhyw argymhellion ar gyfer y cenhedloedd datganoledig eraill. Dywedodd y Cadeirydd fod barn yr Awdurdod ar hyn yn ddigon pendant, sef ei fod yn gwrthwynebu'n gadarn unrhyw gynnig i sefydlu un ystafell reoli ar gyfer y gwasanaeth tân yng Nghymru; cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân fod y Cynulliad, ar hyn o bryd, o'r un farn. Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth y Panel y byddai rhai o'r cynigion yn yr adroddiad, er eu bod yn ymwneud yn bennaf â Lloegr, yn ddiamheuol yn effeithio ar awdurdodau tân yng Nghymru. Roedd yr aelodau'n cytuno â safbwynt y Clerc sef ei bod yn bwysig i'r Awdurdod

gyflwyno ymateb i'r adroddiad, gan ailddatgan ei wrthwynebiad i'r awgrym mai un ystafell reoli i'r gwasanaeth tân oedd y sefyllfa mwyaf ffafriol ar gyfer Cymru; roedd hefyd yn hollbwysig bod y safbwynt yma'n cael ei phwysleisio ar hyn o bryd, cyn i'r system radio genedlaethol newydd gael ei chyflwyno. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - bod ymateb yn cael ei anfon at Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) ar y cynigion yn yr adroddiad "The Future of Fire and Rescue Service Control Rooms in England and Wales" gan ailddatgan gwrthwynebiad Awdurdod Tân Gogledd Cymru i'r casgliad y byddai Cymru'n cael ei gwasanaethu'n well gan un ystafell reoli i'r gwasanaeth tân***

**Mesur y Gwasanaethau Tân ac Achub:** Dosbarthwyd copïau o'r Mesur a nodiadau eglurhaol i bob aelod oedd yn y cyfarfod; byddai'r aelodau nad oeddynt ar y Panel yn cael copïau drwy'r post. Esboniodd y Clerc fod y Mesur wedi ei gyhoeddi ar 13eg Ionawr, sef y diwrnod cyn y cyfarfod; roedd hyn yn golygu nad oedd y swyddogion wedi cael digon o amser i edrych ar y cynnwys yn fanwl nac i ystyried ei oblygiadau'n llawn. Dywedodd fod y Mesur, ar ôl ei ddarllen yn sydyn, i'w weld yn gwahaniaethu'n arw oddi wrth rai o'r cynigion oedd yn y Papur Gwyn "*Our Fire and Rescue Service*". Tynnodd y Clerc sylw'r aelodau'n benodol at "Gymal 59" o'r Mesur oedd yn datgan y dylai pob cyfeiriad at yr Ysgrifennydd Gwladol, yng Nghymru, gael i newid yn gyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Felly, byddai gwneud y Mesur yn ddeddf yn trosglwyddo'r holl bwerau am y gwasanaeth tân yng Nghymru, sydd ym meddiant yr Ysgrifennydd Gwladol ar hyn o bryd, i'r Cynulliad Cenedlaethol. Byddai hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am gyflogau ac amodau'r gwasanaeth, y pŵer i sefydlu ei gorff negodi ei hun a darparu taliadau pensiwn; roedd hyn lawer mwy na'r hyn a gynigwyd yn y Papur Gwyn a byddai'n arwain at roi llawer mwy o bwerau i'r Cynulliad o ran y gwasanaeth tân yng Nghymru na'r hyn oedd gan Senedd yr Alban ar hyn o bryd o ran y gwasanaeth yn yr Alban. Byddai'r Mesur ei hun, o dderbyn Cydsyniad Brenhinol, yn datganoli'r cyfrifoldeb am y gwasanaeth tân i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ni fyddai angen gorchymyn trosglwyddo swyddogaethau. Roedd y Clerc o'r farn y dylai'r Awdurdod gysylltu â'r ODPM ar fyrder i gael eglurhad o'r pwerau sydd i'w datganoli, ac i sefydlu a oedd unrhyw gamgymeriadau wedi eu gwneud wrth ddrafftio'r Mesur. Petai'n dod yn amlwg fod yr holl bwerau i gael eu datganoli, dylai'r Awdurdod wedyn geisio derbyn addewid y byddai digon o refeniw hefyd yn cael ei drosglwyddo i'r Cynulliad i ariannu'n ddigonol y Gwasanaeth yng Nghymru.

Aeth y Clerc yn ei flaen i ddweud fod y Mesur yn cynnwys rhagor o anghysonderau: byddai unrhyw un a fyddai'n fwriadol yn gwneud galwad dân ffug yn cyflawni trosedd, ond ni fyddai galwadau ffug at achosion o lifogydd, gorlifiadau a damweiniau ar y ffordd dyweder, er bod ymateb i ddigwyddiadau dilys o'r math yma bellach yn ddyletswydd statudol, i'w gweld fel petaent yn cael eu cyfri'n droseddau. Er bod y mesur yn datganoli'r holl bwerau am y gwasanaeth tân yng Nghymru i'r Cynulliad, roedd y dull y lluniwyd ef i'w weld yn gwrthddweud y syniad o ddatganoli mewn meysydd eraill, gan ei fod yn awgrymu y byddai'n rhaid i'r Cynulliad gyflwyno'r Fframwaith Cenedlaethol Drafft ar gyfer Cymru, i Senedd Prydain.

Gofynnodd yr aelodau a allai cyrff cynrychioladol hefyd gyflwyno eu barn ar y Mesur er mwyn i'r Awdurdod fedru lleisio'r holl bryderon yn fuan; dywedodd cynrychiolwyr Undeb yr FBU, a oedd yn y cyfarfod, y byddent yn cyflwyno eu sylwadau i'r Clerc. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n galw cyfarfod arbennig o Fforwm Gwasanaethau Tân Cymru er mwyn cael barn yr awdurdodau tân eraill yng Nghymru ar y Mesur. Yna, gofynnodd y Panel i'r Clerc, ar y cyd â'r Swyddogion eraill, lunio adroddiad manwl ar gyfer cyfarfod nesaf y Panel yn rhestru holl oblygiadau pwysig y Mesur yn ei ffurf bresennol. Roeddynt hefyd yn cytuno y dylid galw cyfarfod brys o'r Panel Gweithredol i drafod y Mesur petai angen. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - bod y Clerc yn cysylltu â'r ODPM ar fyrder***

1. ***gyda golwg i gael eglurhad o'r anghysonderau godwyd, ynghyd ag unrhyw anghysonderau eraill ddeuai i'r amlwg pan fyddai'r swyddogion wedi ystyried y Mesur yn fanwl, ac er mwyn sefydlu a yw'r Mesur yn cynnwys camgymeriadau drafftio;***
2. ***petai'n dod i'r amlwg fod y pwerau ar gyfer y gwasanaeth tân yng Nghymru'n cael eu datganoli fel y nodir yn y Mesur, dylid ceisio addewid y byddai adnoddau digonol hefyd yn cael eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn ariannu'r Gwasanaeth yn iawn; a***
3. ***bod adroddiad manwl yn cael ei gyflwyno i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod nesaf yn rhestru goblygiadau'r Mesur yn llawn***

Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr aelodau fod manylion am wahanol newidiadau fel rhan o'r rhaglen foderneiddio i'w gweld yn dod i law bob wythnos. Addawodd adael i'r aelodau wybod am y datblygiadau hyn cyn gynted ag y bo modd ond gofynnodd iddynt fod yn amyneddgar yn ystod y cyfnod hwn o newid.

## 7) Rheoliadau Lwfansau i'r Awdurdod Tân

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) gyda golwg i gael yr aelodau i gytuno ar ymateb i'r Rheoliadau Llywodraeth Leol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004 drafft. Dywedodd wrth yr aelodau nad oedd raid iddynt ddatgan "buddiant personol" yn yr eitem hon o fusnes gan y byddent yn trafod yr egwyddor o sefydlu cynllun y byddai'r holl aelodau'n elwa ohono. Felly, nid oedd yn "fuddiant personol" fel a ddiffinnir mewn deddfwriaeth.

Dywedodd y Clerc wrth y Panel fod llythyr wedi ei anfon at Weinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr, i fynegi siom yr Awdurdod am yr oedi wrth gyflwyno cynllun lwfansau i aelodau awdurdodau tân yng Nghymru. Roedd y llythyr hefyd yn pwysleisio y dylid cyflwyno'r rheoliadau yn ddiymdroi, gan ganiatáu ôl-ddyddio'r taliadau i ddechrau'r flwyddyn ariannol bresennol, ac y dylid trin y taliadau yn yr un modd â'r taliadau

i gynghorwyr sir ac felly dylent fod yn bensiynadwy o 1af Ionawr 2004. Yn y cyfamser, ar 18fed Rhagfyr 2003, roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi'r Rheoliadau Drafft ar gyfer ymgynghoriad, gyda'r sylwadau i ddod i law erbyn 21ain Ionawr 2004; roedd copïau o'r llythyr ymgynghorol a'r rheoliadau drafft yn atodiadau i'w adroddiad. Hefyd fel atodiad, roedd llythyr drafft i ymateb i'r ymgynghoriad, wedi ei lunio gan y Clerc ar ran yr Awdurdod, ac roedd y llythyr hwn yn ailddatgan holl benderfyniadau a sylwadau blaenorol yr Awdurdod ar y mater. Yna soniodd wrth yr aelodau am yr holl bwyntiau oedd yn yr adroddiad a'r llythyr, ac esbonio bod y rheoliadau drafft yn cynnwys rhai materion na nodwyd yn yr ymgynghoriad gwreiddiol. Dan y rheoliadau drafft byddai aelodau awdurdodau tân yn cael eu hatal rhag derbyn Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig am y cyfrifoldeb ychwanegol o fod yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd awdurdod tân, petaent eisoes yn derbyn lwfans tebyg am gyfrifoldebau bod yn aelod o gabinet neu fwrdd eu hawdurdod cyfansoddol eu hunain. Roedd y rheoliadau drafft hefyd yn cynnwys cynnig i beidio ag ôl-ddyddio'r lwfansau; deuent yn daladwy o'r dyddiad y byddai'r rheoliadau'n dod i rym. Cytunodd yr aelodau gyda'r Clerc fod y ddau gynnig yma'n anghyson ac yn gwahaniaethu'n erbyn aelodau'r Awdurdod ac na fyddent yn rhoi cydnabyddiaeth iddynt am unrhyw ymrwymiadau gwaith ychwanegol, nac yn rhoi'r un driniaeth i aelodau yng Nghymru ag aelodau yn Lloegr. Roedd y Clerc yn cytuno â'r datganiad yn llythyr ymgynghorol Llywodraeth Cynulliad Cymru bod angen pwerau deddfu sylfaenol, nad yw'r Cynulliad yn meddu arnynt, er mwyn gwneud y lwfansau'n bensiynadwy; roedd ef o'r farn y dylid cynnwys cyfeiriad at hyn yn y sylwadau sydd i'w cyflwyno i'r ODPM ar y Mesur Gwasanaethau Tân ac Achub. Dywedodd hefyd wrth yr aelodau fod y rheoliadau, unwaith y byddent mewn grym, yn gofyn am ddod ag adroddiad gerbron yr Awdurdod Tân er mwyn sefydlu a chymeradwyo cynllun; petai'r pŵer i sefydlu cynllun yn cael ei ganiatáu ym mis Chwefror, gallai adroddiad a chynllun drafft gael ei gyflwyno i'r Awdurdod ei ystyried yn ei gyfarfod ym mis Mawrth. I ateb cwestiwn ynghylch gweinyddu'r cynllun cadarnhaodd y Trysorydd mai'r Awdurdod fyddai'n gwneud hyn ac nid yr awdurdodau cyfansoddol. Roedd yr aelodau'n bendant o'r farn fod y rheoliadau fel y'i lluniwyd yn annheg; dywedodd y Cadeirydd fod hon yn farn roedd yr awdurdodau tân eraill yng Nghymru yn gytûn â hi ac felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r ymateb drafft atodwyd i'r adroddiad ar gyfer ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru***

Gadawodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) y cyfarfod yn y man hwn.

## 8) Monitro Salwch

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r aelodau am y penderfyniadau a wnaeth ef ac a gadarnhaodd y Cadeirydd ynghylch caniatáu ymestyn tâl salwch, a rhoi gwybod iddynt am lefelau absenoldeb salwch y Gwasanaeth. Dywedodd wrth yr aelodau fod yr adroddiad yn dangos i gynnydd sylweddol fod yn nifer y dyddiau a gollwyd

oherwydd salwch tymor hir ymhlith staff hyblyg/dyletswydd dydd yn ystod y cyfnod dan sylw o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd; roedd hyn yn ymddangos yn waeth oherwydd yr effaith anghymesur roedd nifer fechan o bobl oedd ar seibiant salwch yn ei gael ar gategori gweithwyr oedd yn cynnwys nifer bychan o bobl. Roedd y ffigurau yn yr adroddiad wedi eu rhannu'n gategorïau penodol ar gais yr Awdurdod; petai'r ystadegau hyn yn cael eu rhannu'n gategorïau pellach byddai perygl i'r Awdurdod gael ei gyhuddo o dynnu sylw at unigolion. Sicrhawyd y Panel gan y Prif Swyddog Tân fod yr Awdurdod yn cymryd pob cam rhesymol i gynorthwyo unigolion i ddychwelyd i'r gwaith. Nid oedd ganddo bolisi cyffredinol ar leihau tâl salwch. Rhoddid ystyriaeth ddyledus i amgylchiadau personol a barn broffesiynol y meddyg iechyd galwedigaethol ac edrychid hefyd ar ystyriaethau therapiwteg. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r adroddiad***

**9) Y trefniadau ar gyfer penodi Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r aelodau fod y swydd Prif Swyddog Tân Cynorthwyol wedi ei hysbysebu yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod yn ei gyfarfod mis Rhagfyr i gymeradwyo rhoi'r Adolygiad o Strwythur Reolaethol Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru ar waith, gyda'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yr 16eg Ionawr 2004. Roedd yr hysbyseb wedi nodi er nad oedd y gallu i siarad Cymraeg yn gymhwyster hanfodol, y byddai disgwyl i'r ymgeisydd ddangos ymrwymiad tuag at iaith a diwylliant Cymru. Gwnaed penodiadau yn y gorffennol gan banel penodiadau arbennig yn cynnwys aelodau o'r Awdurdod oedd yn cynrychioli pob awdurdod cyfansoddol, a chafodd yr aelodau wybod fod Mr Rhys Owen, Rheolwr Personél yr Awdurdod, yn bresennol yn y cyfarfod i ateb unrhyw gwestiynau y dymunent eu gofyn. Gofynnodd y Cynghorydd R P MacFarlane a fyddai aelodau'r Panel Penodiadau Arbennig yn derbyn unrhyw hyfforddiant ffurfiol ar gynnal cyfweliadau cyn cynnal y cyfweliadau hyn; dywedodd y Prif Swyddog Tân na fyddai hyn yn bosib y tro hwn oherwydd y cyfyngiadau ar amser. Cyn y cyfweliad byddai pob ymgeisydd yn cael profion canolfan asesu a chyfres o gyfweliadau gyda'r Prif Swyddog Tân, y Dirprwy Brif Swyddog Tân a'r Clerc. Dywedodd y Clerc y byddai'r holl gwestiynau'n cael eu paratoi a'u dosbarthu i aelodau'r Panel o flaen llaw ac y byddai'r Prif Swyddog Tân ac yntau'n bresennol yn y cyfweliad mewn swyddogaeth ymgynghorol. Yna:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

i. ***cynnal y cyfweliadau ar gyfer swydd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol ddydd Iau 12fed Chwefror 2004 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y Rhyl; y Panel i ymgynnull am 9.30 y bore gyda'r ymgeisydd cyntaf yn cael ei gyfweld/chyfweld am 10:00 o'r gloch;***
ii. ***bod y Cynghorwyr T Roberts (Cadeirydd), E C George, J R Hughes, R P MacFarlane, D M Morris, W T Owen a J A Roberts yn gwasanaethu ar y Panel; ac***

***iii. y dylid gwneud ymholiadau gyda'r Gymdeithas Llywodraeth Leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â phecynnau hyfforddi ar gyfer aelodau etholedig fyddai yn gwasanaethu ar baneli penodiadau yn y dyfodol***

**10) Materion Brys**

Trafodwyd yr eitem a gyflwynwyd, dan eitem fusnes rhif 6.

Holodd y Cynghorydd W J Chorlton a oedd Cadeirydd Pwyllgor Safonau'r Awdurdod, a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, yn peryglu ei sefyllfa mewn unrhyw ffordd trwy fynychu cyfarfodydd o'r Awdurdod a'i bwyllgorau. Esboniodd y Clerc fod holl gyfarfodydd yr Awdurdod yn gyfarfodydd cyhoeddus ac felly'n agored i'r wasg a'r cyhoedd. Roedd yn ymwybodol o rai awdurdodau lleol lle roedd yn arferiad cyffredin i aelodau eu pwyllgorau safonau fod yn bresennol fel sylwedyddion yn y cyfarfodydd. Un o ddyletswyddau cyffredinol pwyllgorau safonau oedd cynghori aelodau ar faterion ymddygiad. Petai rhywbeth yn digwydd mewn cyfarfod lle roedd aelod o'r pwyllgor safonau'n bresennol, ni fyddai'r aelod yn gyfrannog yn y drefn gwyno gan na fyddai ef/hi yn cymryd rhan yn y cyfarfod, ond byddai ef/hi'n dyst i'r digwyddiad hwnnw.

Cydnabu y Cynghorydd Chorlton farn y Clerc ond gofynnodd i'w wrthwynebiad ef i aelodau o bwyllgor safonau'r Awdurdod fynychu cyfarfodydd yr Awdurdod a'i bwyllgorau gael ei gofnodi.

**11) Dyddiad(au) cyfarfod(ydd) i ddod o'r Panel Gweithredol**

Yn dilyn trafodaeth ac yn ddibynnol ar angen posib o alw cyfarfod brys o'r Panel fel a nodwyd dan eitem fusnes rhif 6:

***Penderfynwyd: - cynnal y cyfarfod nesaf o'r Panel Gweithredol ddydd Llun 23ain Chwefror 2004 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, y Rhyl neu unrhyw leoliad addas arall***

**RHAN II**

Dim eitemau.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:10 y prynhawn.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** T Roberts **Dyddiedig:** 23 Chwefror, 2004